Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

National Assembly for Wales
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

25 Medi 2019

Annwyl Lesley

Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

Yn dilyn sesiwn dystiolaeth ddiweddar y Pwyllgor i lywio ei waith craffu ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion.

Rydych wedi nodi bod Llywodraeth Cymru yn dymuno cyflwyno gwaharddiad ar sail foesegol. Fodd bynnag, nid yw paragraffau 3.31 i 3.35 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil (o dan y pennawd 'Sail foesegol dros waharddiad') yn nodi unrhyw ddadleuon moesegol a allai fod yn sail i safbwynt Llywodraeth Cymru.

- A allwch chi ddarparu esboniad o'r cyfiawnhad moesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt, yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y Memorandwm Esboniadol ac a roddwyd yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 18 Gorffennaf?

– A allwch chi roi esboniad pam rydych chi'n ystyried bod y gwaharddiad yn ymyrraeth gymesur, a sut rydych chi wedi bodloni'ch hun ei fod yn cydymffurfio â'r hawliau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998?

Hoffai'r Pwyllgor gael ymateb gennych cyn eich ymddangosiad ger ein bron ar 10 Hydref, ac erbyn dydd Gwener 4 Hydref fan bellaf.

Yn gywir,

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565